# Deall y broses erlyn Trwyddedu Teledu

## (yng Nghymru a Lloegr)

Mae'r daflen hon yn ganllaw ar y broses erlyn gyda Thrwyddedu Teledu. Bydd yn eich helpu chi i ddeall beth sy'n digwydd nawr wedi i chi gael eich cyfweld.

Os bydd angen rhagor o help arnoch, awgrymwn eich bod yn darllen hwn gyda rhywun a all roi cymorth i chi. Gweithiwr achos, er enghraifft.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni.**

**0300 373 5451**

**tvl.co.uk/ymweliad** (yn Saesneg)

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU
tvlicensing.co.uk

# Pam y cawsoch ymweliad heddiw

Cawsoch ymweliad yn ddiweddar gan un o'n Swyddogion gan nad oedd gennym unrhyw gofnod o Drwydded Deledu yn eich cyfeiriad ac ni lwyddoch i ateb ein llythyrau blaenorol. Roeddem yn dymuno gwirio a oeddech yn gwylio teledu byw ac angen Trwydded Deledu.

**Mae Trwydded Deledu yn eich caniatáu i ddefnyddio:**

- Pob sianel deledu, fel BBC, ITV, Channel 4, Dave a rhaglenni rhyngwladol
- Gwasanaethau talu am deledu fel Sky, Virgin Media a BT
- Teledu byw ar wasanaethau ffrydio, fel YouTube ac Amazon Prime Video
- Popeth sydd ar BBC iPlayer

**Mae hyn yn cynnwys recordio a lawrlwytho. Ar unrhyw ddyfais.**

# Pam y cawsoch eich cyfweld

Yn ystod yr ymweliad, gwelodd y Swyddog eich bod wedi bod yn gwylio teledu byw heb Drwydded Deledu. Mae hyn yn drosedd, felly cawsoch eich cyfweld gan y Swyddog dan rybuddiad a chofnodwyd eich gwybodaeth.

**Fe gewch gopi o'ch cyfweliad drwy e-bost neu'r post os gofynnoch am un. Bydd copi arall yn cael ei anfon drwy'r post os cewch eich erlyn.**

# Beth gafodd ei drafod yn eich cyfweliad

Eglurodd y Swyddog ei fod am ofyn ychydig o gwestiynau am y drosedd o wylio teledu heb drwydded.

**Yna:**

- Rhoddodd rybuddiad i chi gan egluro'ch hawliau
- Eglurodd nad oedd rhaid i chi ddweud dim, ond petaech yn gwneud hynny gellid defnyddio hynny yn y llys
- Eglurodd y gallech gymryd cyngor cyfreithiol, ond y byddai'n rhaid i chi dalu amdano
- Cofnododd wybodaeth bwysig, gan gynnwys y dystiolaeth a welodd a'r atebion a roesoch
- Gofynnodd i chi a oedd yna unrhyw beth y dylem ei wybod a fyddai'n helpu i arbed yr erlyniad

**Ni ddywedoch wrth y Swyddog ar y pryd am eich amgylchiadau?**

Peidiwch â phoeni – gallwch wneud hynny nawr. Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth.

**Naill ai:**

- Ffoniwch ni ar 0300 373 5451 a gallwn egluro'r hyn sydd angen i chi ei wneud
- Neu ewch i adran 'Darparu eich tystiolaeth' y daflen hon

# Beth sydd angen i chi ei wneud nawr

Mae angen i chi brynu trwydded os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes. Os prynwch drwydded heddiw, a pharhau i dalu'n brydlon, fe allech osgoi erlyniad. Os felly, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn gadael i chi wybod.

Cost Trwydded Deledu yw £169.50.

## I brynu un, gallwch un ai:

### Talu'r cyfan ar unwaith

Gallwch dalu £169.50 gyda cherdyn debyd neu gredyd, neu drwy anfon siec. Gallwch dalu gydag arian parod hefyd yn eich siop PayPoint agosaf.

Cewch ragor wybodaeth yn **tvl.co.uk/ffyrddodalu** neu ffoniwch **0300 373 5451**.

Cynllun Talu Syml.

### Lledaenwch y gost

Ein Cynllun Talu Syml yw ein ffordd rataf o dalu. Mae'n costio tua £3 yr wythnos.

Ewch i **tvl.co.uk/cerdynspp** ffoniwch **0300 373 5451** neu sganiwch y cod QR gyda'ch ffôn i gael mwy o wybodaeth. Bydd angen ichi nodi'r cod cyfeirnod HHP201.

**Rhaid i chi barhau i dalu'n brydlon er mwyn cael eich trwyddedu'n gywir.**

# Helpu i reoli eich cyllid

Gwyddom fod rhai cwsmeriaid yn ei chael hi'n anodd talu am Drwydded Deledu.

Mae yna amryw o sefydliadau nid er elw a allai roi cymorth i chi. Mae eu cyngor yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn annibynnol.

## Cyngor ar Bopeth

Ewch i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol neu ewch i **adviceguide.org.uk** (Cymru a Lloegr).

## National Debtline

Os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr ffoniwch **0808 808 4000** neu ewch i **nationaldebtline.org** am gyngor a gwybodaeth.

## Money Helper

Ewch i **moneyhelper.org.uk** neu ffoniwch **0800 138 7777** am gyngor rhad ac am ddim a diduedd.

Os ydych yn cael trafferth gyda'ch taliadau, ffoniwch ni ar **0300 373 5451** ac fe wnawn ein gorau i'ch helpu.

# Erlyniad yw'r cam olaf

Rydym eisiau eich helpu i osgoi hynny. Fodd bynnag, os prynwch drwydded, fe allech gael eich erlyn hyd yn oed wedyn os:

- Oes gennych euogfarn Trwyddedu Teledu flaenorol, neu fe ystyriwyd eich erlyn am resymau Trwyddedu Teledu yn y gorffennol
- Dywedoch wrthym nad oes angen Trwydded Deledu arnoch ond nid yw hynny'n gywir
- Dywedoch wrthym na fyddwch yn prynu Trwydded Deledu er y dywedwyd wrthych fod angen un arnoch

## Y broses erlyn

Os bydd y llys yn eich canfod yn euog, bydd yr ynad yn penderfynu beth fydd lefel eich dirwy. Fe allech orfod talu:

- Dirwy hyd at £1,000
- Taliad dioddefwr o 40% o'r ddirwy
- Costau erlyn o tua £120

Bydd yn rhaid i chi brynu Trwydded Deledu wedyn os bydd angen un arnoch.

**Ni ellir eich carcharu am euogfarn Trwyddedu Teledu. Fodd bynnag, fe allai'r llys benderfynu eich carcharu am wrthod talu dirwyon y llys yn fwriadol.**

Am ragor o wybodaeth am y broses erlyn, ewch i **tvl.co.uk/ymweliad** (yn Saesneg), ffoniwch **0300 373 5451** neu sganiwch y **Cod QR**.

# Eich amgylchiadau personol

Cyn i ni eich erlyn, rhaid i ni sicrhau bod y dystiolaeth yn eich erbyn yn ddigon cryf. Byddwn yn edrych hefyd ar unrhyw amgylchiadau personol y sonioch wrthym amdanynt a allai olygu y byddai'n annheg eich erlyn. Rhaid i'r rhain fod yn ddigon difrifol fel eu bod wedi'ch atal rhag prynu Trwydded Deledu a chadw trefn ar eich gwaith o ddydd i ddydd.

**Ar yr ochr dde fe welwch rai enghreifftiau o beth allai fod yn digwydd i chi. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'ch iechyd corfforol. Neu eich iechyd meddwl, anhawster dysgu, problemau ariannol neu gamdriniaeth ddomestig. Mae yna enghreifftiau o dystiolaeth y gallwch eu rhoi i ni hefyd.**

**Rydym yn ystyried pob achos yn unigol ac yn edrych ar y dystiolaeth i gyd cyn dod i benderfyniad. Ffoniwch ni ar 0300 373 5451 i gael cyngor ynghylch sut allai hyn fod yn berthnasol i chi. Ni fyddwn yn rhannu'ch gwybodaeth gydag unrhyw un arall, oni bai ei bod yn ofynnol gwneud hynny drwy'r gyfraith neu fod hynny wedi'i ganiatáu drwy'r gyfraith.**

## Enghreifftiau o’ch amgylchiadau personol.

**Roeddwn yn yr ysbyty. Neu mae gennyf salwch difrifol. Beth allaf ei wneud?**
Gallwch ddangos llythyr gan eich meddyg teulu, nyrs neu’r ysbyty.

**Mae gennyf salwch meddwl difrifol. Neu collais anwylyn yn ddiweddar. Beth allaf ei wneud?**
Gall eich gweithiwr cymorth helpu i roi gwybodaeth i ni am eich anghenion.

**Mae gennyf anhawster dysgu sy’n ei gwneud hi’n anodd i mi brynu trwydded. Beth allaf ei wneud?**
Gall eich gofalwr helpu i roi gwybodaeth i ni am eich anghenion.

**Rwyf wedi colli fy swydd. Neu ni allaf dalu am y pethau sylfaenol fel bwyd neu wres. Beth allaf ei wneud?**
Gallwch ddangos tystiolaeth i ni fod eich budd-daliadau wedi stopio. Neu lythyr gan elusen yn egluro beth sydd wedi digwydd.

**Rwy’n dioddef o gamdriniaeth ddomestig. Beth allaf ei wneud?**
Dewch o hyd i le diogel i’n ffonio ni. Gallwn ni helpu. Os ydych yn cael cymorth gan elusen, gofynnwch iddyn nhw ein ffonio.

# Darparu eich tystiolaeth

Rhaid i'r dystiolaeth a rowch i ni ddangos bod eich amgylchiadau'n eich atal rhag prynu Trwydded Deledu. Fe allai egluro hefyd eich anawsterau o reoli eich gwaith o ddydd i ddydd a sut allai erlyniad effeithio arnoch chi.

## Sut i anfon eich tystiolaeth atom

Gallwch anfon tystiolaeth drwy e-bost neu drwy'r post. Os ydych yn postio dogfennau, anfonwch gopïau yn unig (nid dogfennau gwreiddiol), gan nad oes modd i ni eu dychwelyd.

Cwblhewch y ffurflen yn y daflen hon a'i hanfon gyda'ch tystiolaeth. Os byddwch yn anfon e-bost atom yn hytrach, cofiwch gynnwys yr un manylion ag sydd ar y ffurflen. Sganiwch eich tystiolaeth (gallwch wneud hyn gyda ffôn clyfar) a'i hanfon mewn e-bost at: **visit@tvlicensing.co.uk**

Bydd unrhyw dystiolaeth a ddarparir gennych yn cael ei hystyried yn ofalus cyn gwneud unrhyw benderfyniad i erlyn.

Os bydd angen unrhyw arweiniad arnoch, ffoniwch ni ar **0300 373 5451**.

# Eich ffurflen dystiolaeth

**Defnyddiwch y ffurflen hon os ydych yn postio tystiolaeth o'ch amgylchiadau personol atom.**

Cwblhewch y ffurflen, rhwygo'r ddalen a'i hanfon atom gyda chopïau o'ch tystiolaeth.

**Os ydych yn anfon tystiolaeth atom drwy e-bost, cofiwch gynnwys y wybodaeth isod hefyd.**

**Rhif cyfeirnod y cyfweliad:**

I'w ganfod o dan y cod bar ar eich ffurflen Cofnod o Gyfweliad.

**Enw llawn:**

**Dyddiad geni:** : :

**Cyfeiriad:**

**Cod post:**

**Llofnod:**

**Dyddiad:** : :

Anfonwch gopïau o'ch tystiolaeth, ynghyd â'r ffurflen hon wedi'i chwblhau, i:

**TV Licensing, Customer Service Centre, PO Box 88, Darwen BB3 1WZ**

Bydd y BBC, sef y rheolydd data, a'i gyflenwyr (sydd, gyda'r BBC, yn defnyddio'r enw brand "Trwyddedu Teledu") ond yn defnyddio'r data personol a ddarparwch i helpu i benderfynu a ddylid eich erlyn am y drosedd o ddefnyddio derbynnydd teledu heb drwydded ac ynghlwm ag unrhyw erlyniad o'r fath (ac, os yw'n briodol, i ddiweddaru ein cofnodion). Ni fyddwn yn ei rannnu gydag unrhyw un arall, oni bai bod angen y wybodaeth honno neu y caniateir i'w defnyddio yn ôl y gyfraith. Am ragor o wybodaeth, ewch i **tvl.co.uk/polisipreifatrwydd**

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynghylch ymweliad gan Swyddog, neu erlyniad posib am drosedd Trwyddedu Teledu, ffoniwch ni ar **0300 373 5451** neu ewch **tvl.co.uk/ymweliad** (yn Saesneg)

Os oes gennych broblemau gyda'ch golwg, mae modd i chi gael y wybodaeth hon drwy e-bost neu mewn Braille, print mawr neu drwy gyfrwng clywedol drwy ffonio **0300 790 6076**.

Os ydych yn fyddar, yn drwm eich clyw neu fod gennych nam ar eich lleferydd, rydym yn darparu gwasanaethau cynorthwyydd cyfnewid.
Am ragor o wybodaeth, ewch i **tvl.co.uk/hygyrchedd**

SJP-PC-LFLT-G-ROI-04-24-WE

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU
tvlicensing.co.uk